Cyngor Sir CEREDIGION

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus
DYDDIAD:	27/07/2022
LLEOLIAD:	Teams
TEITL:	Strategaeth a Chynllun Gweithredu Gwefru Cerbydau Trydan Ceredigion
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Cymeradwyo Strategaeth a Chynllun Gweithredu Gwefru Cerbydau Trydan Ceredigion
RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:	Argymhelliad gan Grŵp Rheoli Carbon a Newid Hinsawdd Cyngor Sir Ceredigion (20/06/2022) bod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus yn ystyried y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu drafft cyn eu cyflwyno i'r Cabinet i'w mabwysiadu'n ffurfiol

CEFNDIR:

Cyhoeddodd Cyngor Sir Ceredigion argyfwng hinsawdd byd-eang ar 5 Mawrth 2020 ac wedi hynny cyhoeddodd ei Gynllun Gweithredu Sero Net ym mis Mehefin 2021. Fel rhan o'i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a chynlluniau i ddatgarboneiddio trafnidiaeth a theithio yn benodol, mae Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cerbyd Allyriadau Isel Iawn (ULEV)) wedi'u drafftio i'w mabwysiadu gan y Cyngor Sir.

Ar hyn o bryd nid oes gan Gyngor Sir Ceredigion strategaeth ULEV ond mae wedi derbyn cyllid i ddarparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru ac felly mae angen datblygu strategaeth gorfforaethol i arwain ein dull gweithredu a'n buddsoddiad. Ymgysylltwyd ag WSP Consultancy (Tachwedd 2021) gan Grŵp Llywio ULEV y Cyngor i ddatblygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu drafft. Mae'r gwaith wedi'i ariannu o ddyraniad grant Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn Llywodraeth Cymru (ULEVTF) ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2021/22. Disgwylir y bydd y Strategaeth ULEV ddrafft yn dangos arweinyddiaeth leol, yn dylanwadu ac yn ysgogi ymrwymiadau tebyg o fewn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Ngheredigion/Canolbarth Cymru. Mae'n dechnoleg sy'n newid yn gyflym a bydd angen adolygu'r strategaeth yn gyson.

Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD:

Mae'r Cyngor wedi derbyn cyllid grant i osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn meysydd parcio cyhoeddus a'i ddepos ac mae wedi galluogi'r Grŵp Llywio i gomisiynu'r strategaeth a'r cynllun gweithredu. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad 1. Mae'r rhaglen darparu'r isadeiledd presennol yn rhan o gynllun gweithredu y strategaeth hon (gweler Atodiad 2).

Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam
Crynodeb:

Oes. Mae hwn yn dod o dan yr Asesiad Effaith Integredig a baratowyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu Sero Net (cymeradwywyd 2021)

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:

Hirdymor: Cadarnhaol - Bydd y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu hwn yn cefnogi uchelgais di-garbon net y Cyngor ar gyfer 2030 a chyflawni Cynllun Gweithredu Sero Net y Cyngor.

Integreiddio: Cadarnhaol - Bydd y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu yn ceisio annog perchnogaeth a defnydd o Gerbydau Allyriadau Isel lawn a helpu i leihau allyriadau carbon ar draws Ceredigion.

Cydweithio: Mae'r Cyngor Sir eisoes yn cydweithio â nifer o gyrff cyhoeddus o ran lleihau allyriadau carbon. Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu hyn yn ceisio datblygu'r bartneriaeth hon ymhellach ac annog buddsoddiad sector preifat a thrydydd sector yn y maes.

Cynnwys: Cadarnhaol - Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu wedi'u datblygu gan ymgynghorwyr a gomisiynwyd gan swyddogion y Grŵp Llywio Cerbydau Allyriadau Isel lawn, sy'n adrodd i'r Panel Rheoli Prosiect Corfforaethol. Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu drafft wedi'u seilio ar ymgysylltiad â rhanddeiliaid, wedi'u hystyried a'u cymeradwyo gan Grŵp Rheoli Carbon a Newid Hinsawdd y Cyngor – a fynychir gan aelodau a swyddogion gyda lle i gyfranogiad ehangach yn dilyn mabwysiadu a chyhoeddi'r strategaeth. Mae hefyd cyfleoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd i lywio cynlluniau cyflawni yn y dyfodol.

Atal:	Cadarnhaol - Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu hwn yn cynnig camau i leihau allyriadau carbon sy'n cyfrannu at newid hinsawdd.

ARGYMHELLIAD:

Gofynnir i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ystyried y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu drafft (Atodiad 1) a'u cymeradwyo er mwyn eu cyflwyno i'r Cabinet i'w mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:

Cefnogi cyflawniad effeithiol o ymrwymiad y Cyngor i leihau allyriadau carbon o'r sector trafnidiaeth a theithio fel y'i cyflwynir yn y Strategaeth Gorfforaethol a'r Cynllun Gweithredu Sero Net.

Enw Cyswllt:	Phil Jones
Swydd:	Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Priffyrdd
Dyddiad yr Adroddiad:	27/07/2022
Acronymau:	ULEV – Ultra Low Emission Vehicle - Cerbyd Allyriadau Isel Iawn ULEVTF - Ultra Low Emission Vehicle Fund - Cronfa Cerbydau Allyriadau Isel Iawn OZEV – Office of Zero Emission Vehicles - Swyddfa Cerbydau Allyriadau Sero ORCS – On-street Residential Charge-point Scheme - Cynllun Pwyntiau Gwefru Preswyl ar y Stryd WLGA – Welsh Local Government Association - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru